

**Arolygiad o Bractis
Deintyddol Cyffredinol
(Lle Rhoddwyd Rhybudd)
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf
Goodwin Partnership
DBS Ltd**

09 Mawrth 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd Profiad y Claf	5
	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	7
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	11
5.	Camau Nesaf	12
6.	Methodoleg	13
	Atodiad A.....	15

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae AGIC yn canolbwyntio'n bennaf ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru, boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaethau, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Rhoi llais cryfach i gleifion a'r cyhoedd o ran y ffordd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad ar Goodwin Partnership DBS Ltd, 21 Grawen Street, Porth, Rhondda Cynon Taf, CF39 0BU ar 9 Mawrth 2016. Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd Goodwin Partnership DBS Ltd yn bodloni'r safonau gofal a nodwyd yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cyhoeddir arolygiadau deintyddol ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n ffordd o arolygu.
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol - Rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd Rheoli ac Arwain – Rydym yn ystyried sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain, a ph'un a yw'r diwylliant yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y safonau a'r canllawiau perthnasol.

Rhoddir rhagor o fanylion am ein methodoleg yn adran 6 o'r adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Mae Goodwin Partnership DBS Ltd yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Rhondda Cynon Taf. Mae Goodwin Partnership DBS Ltd yn darparu gwasanaethau deintyddol yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Mae'r practis deintyddol hirsefydledig mewn tŷ Fictoraidd mawr wedi'i drawsnewid sy'n ymestyn dros dri llawr mewn ardal breswyl yn y Porth. Mae'r deintyddfeydd ar y llawr daear a'r llawr cyntaf a'r swyddfa a chegin y staff ar yr ail lawr. Mae practis arall yng Nghwbrân.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys naw deintydd ac un hylenydd, deg nyrs ddeintyddol ac un nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant. Ceir dau reolwr practis a derbynnydd penodedig. Mae Goodwin Partnership DBS Ltd yn cynnig amrywiaeth lawn o driniaethau deintyddol y GIG a thriniaethau deintyddol preifat.

3. Crynodeb

Gwelsom fod Goodwin Partnership DBS Ltd yn cynnig gofal deintyddol diogel ac effeithiol o ansawdd uchel ac mae'n uchel ei barch ymhlith ei gleifion.

Nodwyd gennym fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff i'w gweld yn hapus yn eu rolau ac yn deall eu cyfrifoldebau.
- Roedd y cyfleusterau clinigol yn cynnwys offer da iawn ac roeddent yn amlwg yn lân ac yn daclus.
- Roedd cofnodion y cleifion o safon uchel ar y cyfan.
- Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio pelydrau-X yn ddiogel.
- Roedd yr offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio'n briodol.
- Roedd gwastraff clinigol yn cael ei drafod, ei storio a'i waredu'n ddiogel.
- Roedd archwiliadau a chyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'u defnyddio i wella'r practis.

Argymhellwn y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Dylid rhoi asesiadau risg ar sylweddau peryglus ar waith sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am fesurau rheoli sydd wedi'u rhoi ar waith.
- Sicrhau bod yr holl gofnodion i gleifion yn cynnwys cyngor ar roi'r gorau i smygu a chyngor ar alcohol, sgrinio ar gyfer canser a chofnodi cydsyniad ar sail gwybodaeth.

4. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd o holiaduron cleifion yn hynod gadarnhaol. Roedd gan y practis system ar waith i ofyn am adborth y cleifion yn rheolaidd fel ffordd o asesu ansawdd y gwasanaeth, a hynny drwy gynnal arolygon cleifion. Roedd ystafelloedd aros dymunol ar gael gyda thystiolaeth o ystod o ddeunydd hybu iechyd deintyddol.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

'Rwy'n teimlo'n ffodus iawn o fod wedi bod yn glaf yma drwy fy mywyd bron. Practis deintyddol gwych.'

'Rydw i wedi cael gwasanaeth gwych bob tro a fydden i ddim yn symud at ddeintydd arall.'

'Gwasanaeth gwych gan bob aelod o staff Deintyddfa Goodwin.'

'Mae'r staff yn groesawgar ac yn gyfeillgar bob amser.'

Gofal ag urddas

Dyweddodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth a gânt yn y practis ac yn teimlo'u bod yn cael croeso gan y staff. Gwelsom fod pob aelod o'r staff yn trin y cleifion mewn ffordd gynnes, gyfeillgar a phroffesiynol. Roedd gan y practis drefniadau i ddiogelu preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys ardaloedd lle y gallai'r cleifion gael sgysiau preifat â'r staff a disgresiwn wrth drafod negeseuon ffôn gan gleifion. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn hynod fodlon ar y gofal a'r driniaeth a gawsant.

Gofal amserol

Roedd y practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol. O'r 21 o gleifion a atebodd yr holiaduron, dim ond pedwar a wynebodd rywfaint o oedi wrth gael eu gweld gan y deintydd ar ddiwrnod yr apwyntiad. Dywedodd tri chwarter y cleifion wrthym hefyd eu bod yn gwybod sut i gysylltu â gofal y tu allan i oriau. Gwelsom fod arwydd ar ddrws y ddeintyddfa, a oedd yn dangos y rhif cyswllt ar gyfer argyfyngau. Roedd arwydd

hefyd ar waliau'r ystafelloedd aros, yn y daflen wybodaeth i gleifion a gwnaethom gadarnhau fod y rhif cyswllt ar gyfer argyfyngau'n cael ei ddarparu ar neges peiriant ateb y practis.

Cadw'n iach

Roedd y dderbynfa a'r ardal aros yn creu argraff gyntaf olau a deniadol. Roedd deunydd hybu iechyd deintyddol i'w gweld ar ffurf poster i'w gweld ar y waliau ac o gwmpas y dderbynfa.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael gwybodaeth briodol am eu triniaeth. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod wedi cael yr opsiwn i gyfathrebu yn eu dewis iaith a dywedwyd wrthym y gallai rhai o'r staff siarad Cymraeg a Saesneg. Roedd hyn yn golygu y gallai'r practis gynnig y cyfle i'r cleifion gyfathrebu yn Gymraeg pe dymument wneud hynny.

Gofal unigol

Dywedodd y staff wrthym fod y cleifion yn cael eu hannog i roi adborth ar lafar wrth roi eu barn ar y gwasanaeth, pan oedden nhw'n mynychu'r practis. Roedd unrhyw sylwadau'n cael eu rhannu gan y derbynnydd yng nghyfarfodydd y practis. Gwelsom fod arolygon cleifion yn cael eu cynnal a'r data'n cael ei adolygu. Dangosodd hyn fod systemau ar waith i alluogi'r cleifion i roi adborth i'r practis yn barhaus.

Pan ofynnwyd ynghylch cwyno am ofal neu driniaeth, cadarnhaodd hanner y cleifion a gwblhaodd yr holiaduron eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn a'u bod wedi gweld yr hysbysiad yn yr ystafell aros. Roedd poster y GIG ar yr hysbysfwrdd yn cydymffurfio â threfniadau cwyno'r GIG sy'n cael eu galw'n 'Gweithio i Wella'. Roedd hysbysiad ar gwyno hefyd ar gael i'r cleifion preifat. Roedd y ddau'n cynnwys gwybodaeth lawn.

Dywedwyd wrthym mai prin iawn oedd y cwynion a gafwyd yn y practis. Cafodd unrhyw bryderon/cwynion eu hadolygu ond roedd cyn lleied o gwynion fel nad oedd yn bosibl dadansoddi unrhyw dueddiadau.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Gwelsom fod y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Roeddem yn fodlon bod trefniadau ar waith er mwyn diogelu cleifion a staff rhag heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hatal. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod yr offer pelydr-X a'r broses ddihalogi yn cael eu defnyddio'n briodol ac yn ddiogel.

Gofal diogel

Cyfleusterau Clinigol

Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg gyda'r bwriad o gyrraedd y safonau perthnasol i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Roedd y practis yn darparu amgylchedd glân.

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn y deintyddfeydd a gwelsom eu bod yn cynnwys offer perthnasol i sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol. Gwelsom fod y deintyddfeydd yn lân ac yn daclus.

Roedd y deintyddfeydd yn drefnus er mwyn helpu'r nyrsys i weithio'n effeithlon. Roedd system effeithiol ar waith i symud offer deintyddol a oedd wedi'u defnyddio o'r deintyddfeydd i'r ystafell ddihalogi mewn cynwysyddion a oedd wedi'u labelu a'u selio. Ar ôl i'r offer fynd drwy'r broses lanhau, roeddent yn cael eu pecynnu, eu labelu a'u dyddio'n glir cyn cael eu rhoi ar hambyrddau plastig mewn ardal benodedig.

Bu modd i ni archwilio'r peiriant a oedd yn darparu aer cywasgedig i'r ddeintyddfa (cywasgydd). Roedd y dystysgrif archwiliad diogelwch ar gael a oedd yn cadarnhau bod y peiriant wedi cael ei wasanaethu. Gwnaethom nodi fod profion dyfeisiau cludadwy (PAT) wedi'u cwblhau ar bob darn o gyfarpar trydanol er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau bach yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd y cyfarpar diogelwch tân yn ei le ac wedi'i archwilio ym mis Hydref 2015. Roedd arwyddion clir yn nodi ble roedd yr allanfeydd tân. Roedd y dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn cael ei harddangos.

Roedd ffeil ar gael a oedd yn cynnwys taflenni data yn ymwneud â Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) ond dim ond nifer bach o asesiadau risg ar gyfer cemegion oedd yn cael eu cadw ar y safle. Gwnaethom gadarnhau bod yr holl gemegion yn cael eu cadw'n ddiogel y tu ôl i ddrysau wedi'u cloi. Fodd bynnag, roedd angen cwblhau asesiadau risg, a oedd yn nodi'r mesurau rheoli cyfredol a oedd ar waith i atal rhag niwed.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid rhoi asesiadau risg ar waith, ochr yn ochr â phob Taflen Ddata, ar gyfer yr holl gemegion a gedwir ar y safle.

Offer radiograffig

Gwelsom dystiolaeth bod trefniadau addas ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-x) yn ddiogel a gwelsom gofnodion hyfforddiant cyfredol ar gyfer pob deintydd.

Roedd gan y practis drefniadau i ddiogelu'r cleifion a'r staff wrth i belydrau-X gael eu cymryd. Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau diogelwch, cynnal a chadw a phrofi offer. Gwelwyd rheolau lleol hefyd ar gyfer defnyddio'r offer pelydr-X yn y ffeil diogelu rhag ymbelydredd ac wedi'u glynu wrth y peiriant yn y deintyddfeydd. Roedd y rhain yn cynnwys enwau'r goruchwylydd diogelu rhag ymbelydredd a'r ymgynghorwyr diogelu rhag ymbelydredd fel yr oedd yn ofynnol yn y rheoliadau.

Cadarnhaodd y staff hefyd fod ansawdd y pelydrau-X a gymerir yn cael eu hystyried a'u cofnodi'n ddyddiol. Roedd y practis wedi cwblhau archwiliad pelydr-X deintyddol yn 2014 a 2015.

Storio cyffuriau a chyfarpar brys

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y tîm wedi cael hyfforddiant ar sut i gynnal triniaeth dadebru cardio-anadlol (CPR) a bod swyddog cymorth cyntaf dynodedig ar gael. Nid oedd y swyddog cymorth cyntaf wedi cwblhau cwrs hyfforddiant cymorth cyntaf. Roedd y practis yn teimlo gan fod llai nag ugain o aelodau o staff yn yr adeilad ar unrhyw ddiwrnod ac yn dilyn asesiadau risg rheolaidd, nad ystyriwyd ei fod yn angenrheidiol. Dylai'r practis geisio cyngor yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i gadarnhau a yw'r trefniadau ar gyfer cymorth cyntaf yn briodol.

Roedd y cyfarpar dadebru a chyffuriau brys yn cael eu storio mewn cwpwrdd ar wahân y gellir mynd iddo'n hawdd pe bai argyfwng meddygol (llewygu) yn digwydd yn y practis. Roedd yn amlwg bod system effeithiol ar waith i archwilio'r cyfarpar a'r cyffuriau brys bob wythnos.

Dihalogi

Roedd gan y practis ardal benodedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Roedd yr ystafell yn edrych yn lân ac yn daclus. Roeddem yn fodlon

bod gweithdrefnau priodol a hirsefydledig ar waith i leihau'r risg o groes-heintio er mwyn amddiffyn cleifion a staff. Gwelsom fod sinc benodol ar gael i olchi dwylo. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant mewn rheoli heintiau a gwelsom y tystysgrifau hyfforddiant hyn.

Dangosodd y practis dystiolaeth i ni ei fod wedi cwblhau archwiliad rheoli heintiau yn 2015 a oedd yn cydymffurfio â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05¹. Nodwyd camau gweithredu a nodwyd pryd y byddent yn cael eu rhoi ar waith. Roedd archwiliad arall wrthi'n cael ei gwblhau ar adeg yr arolygiad.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod yr holl gyfarpar dihalogi yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd a bu modd i ni weld y tystysgrifau cynnal a chadw ar gyfer y cyfarpar.

Roedd y practis yn cofnodi archwiliadau dyddiol ac wythnosol ar y sterilyddion i sicrhau bod y cyfarpar yn cadw mewn cyflwr da a bod y broses ddihalogi yn drylwyr ac effeithiol.

Gwaredu gwastraff

Gallm weld fod gan y practis system i reoli gwastraff mewn ffordd briodol a diogel. Roedd dogfennau contractau ar gael ar gyfer gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Gwelsom hefyd fod y gwastraff wedi'i ddioli a'i osod yn y bagiau/cynwysyddion lliw priodol yn unol â'r dull gwaredu cywir. Roedd y rhain yn cael eu storio y tu allan neu mewn ardal dan glo yn yr adeilad nes iddynt gael eu casglu.

Diogelu

Gwelsom fod gan y practis bolisi diogelu i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed a gwelsom eu tystysgrifau hyfforddiant.

Gofal effeithiol

¹ Mae dogfen [Memorandwm Technegol Iechyd Cymru \(WHTM 01-05\) \(Diwygiad 1\)](#) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gallem weld fod nifer mawr o archwiliadau ac archwiliadau gan grwpiau cymheiriaid wedi'u cwblhau gan y practis, yn cynnwys rheoli heintiau, archwiliadau radiograffeg, defnydd cleifion o'r gwasanaethau y tu allan i oriau, rhagnodi gwrthfeicrobaidd, cadw cofnodion a rhagarchwiliad diweddar ar ffactorau risg canser y geg. Dywedodd y perchennog nad oedd y practis yn defnyddio adnodd datblygu tîm penodol, fel yr Adnodd Hunanwerthuso Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth, ond mai system fewnol oedd yn cael ei defnyddio. Nodwyd anghenion drwy arfarniadau staff ac roedd y staff yn cael eu hannog i fynyachu cyrsiau er mwyn datblygu eu sgiliau.

Cofnodion cleifion

Edrychwyd ar sampl o gofnodion y cleifion. Ar y cyfan, roedd tystiolaeth bod cofnodion y cleifion o safon uchel, sy'n dangos bod gofal wedi'i gynllunio a'i ddarparu er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant cleifion.

Gwelsom fod cofnodion gofal cleifion yn cynnwys digon o wybodaeth am drafodaethau a gynhaliwyd ynghylch opsiynau triniaeth a gwnaeth yr ymatebion yn yr holiaduron i gleifion gadarnhau hyn. Roedd tystiolaeth ar gael o ofal a thriniaeth cleifion wedi'u cynllunio. Gwelsom hefyd gydlofnodion i ddangos bod hanes meddygol cleifion wedi'u harchwilio gan y deintydd. Ar y cyfan, gwelsom fod nodiadau clinigol gwyb yn cael eu hysgrifennu. Fodd bynnag, nid oedd rhai cofnodion yn dangos unrhyw dystiolaeth o gyngor ar roi'r gorau i smygu, sgrinio ar gyfer canser na chynghor ar alcohol ac nid oedd cydsyniad ar sail gwybodaeth wedi'i gofnodi yn y nodiadau clinigol bob tro.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r nodiadau clinigol gynnwys tystiolaeth o gyngor ar roi'r gorau i smygu, cyngor ar alcohol, sgrinio ar gyfer canser a chydsyniad ar sail gwybodaeth.

Roedd y dystiolaeth yn nodi bod y cleifion yn cael cynnig pelydrau-X ar gyfnodau amser priodol. Roedd ansawdd y pelydrau-X yn cael ei fonitro a phob pelydr-X yn cael ei storio ar gyfrifiadur.

Gwelsom fod gan y practis drefniadau addas i gadw copïau wrth gefn o gofnodion y cleifion i sicrhau parhad gofal. Roedd cofnodion papur yn cael eu cadw mewn cypyrddau ffeilio y gellid eu cloi yn y swyddfa.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Gwelsom dystiolaeth o ddulliau rheoli ac arwain effeithiol yn y practis. Roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau perthnasol ar waith. Roedd y staff i'w gweld yn hapus yn eu rolau ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n fedrus.

Mae Goodwin Partnership wedi bod yn y Porth ers 1947 ac mae mewn tŷ Fictoraidd mawr wedi'i drawsnewid.

Dau reolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Roedd yr holl staff i'w gweld yn siarad yn rhwydd ac yn gwybod y byddai eu barn yn cael sylw. Gwelsom ffolderi sefydlu trylwyr a oedd yn broses o gael eu hehangu a'u diweddarau.

Roedd modd i bob aelod o'r staff ddefnyddio'r cyfrifiadur a oedd yn cynnwys y polisiau a'r gweithdrefnau ac roedd angen iddynt sicrhau eu bod yn eu darllen. Roedd arfarniadau blynyddol wedi cael eu cynnal ac amcanion wedi'u gosod. Roedd y perchennog yn defnyddio'i system fewnol ei hun i nodi anghenion hyfforddiant ac yn anfon y staff ar gyrsiau priodol. Ymhlith y cyrsiau hyn roedd hyfforddiant rheoli, rheoli gwrthdaro a deintyddiaeth pedair llaw². Gwelsom hefyd gofnodion o'r cyfarfodydd tîm chwarterol lle'r oedd y staff yn cael cyfle i roi sylwadau ac argymhellion. Nododd y cofnodion hefyd gamau i'w cymryd a ddangosodd fod gwaith dysgu wedi mynd rhagddo. Roedd y cofnodion yn cael eu hanfon allan drwy e-bost i'r rheini a oedd yn methu mynychu. Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod perthnasol o staff wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd arwyddion i'w gweld yn dangos enwau a chymwysterau'r deintyddion.

Gwelsom gofnodion yn ymwneud â statws imiwneiddio Hepatitis B pob aelod o'r staff clinigol a oedd yn gweithio yn y practis.

Edrychwyd ar y polisiau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith a gwelsom dystiolaeth eu bod yn adlewyrchu ymarfer gwirioneddol. Roeddent yn benodol

² Techneg lle mae nyrs ddeintyddol yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r deintydd, y therapydd deintyddol neu'r hylenydd deintyddol ar driniaethau yng ngheg y claf. Mae'r dechneg yn lleihau blinder ac yn gwella effeithiolrwydd y triniaethau deintyddol.

i'r practis, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac roedd y staff yn ymwybodol ohonynt.

5. Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn Goodwin Partnership DBS Ltd, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r camau a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Ar y cyfan, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi digon o sicrwydd i AGIC o ran y materion sydd ynddo.

Lle nad yw'r camau yng nghynllun gwella'r practis wedi eu cwblhau eto a/neu lle maent yn mynd rhagddynt, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi'u cwblhau.

Ar ôl cytuno ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso fel rhan o'r broses arolygiadau deintyddol barhaus.

6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal Newydd (gweler ffigur 1) wrth wraidd dull AGIC o arolygu gwasanaethau'r GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio ar y cyd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio'r modd y mae gwasanaeth yn darparu gofal dibynadwy a diogel o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau yn allweddol i'r penderfyniadau a wnawn am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008³ a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat

³ <https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made>

(Cymru) (Diwygio) 2011⁴. Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2000 ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad gwnaethom adolygu dogfennaeth a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a ddelir gan AGIC
- Cyfweiliadau â staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau â staff nyrsio
- Archwiliad o sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwiliad o bolisiau a gweithdrefnau'r practis
- Archwiliad o gyfarpar a'r safle
- Gwybodaeth yn y daflen wybodaeth i gleifion
- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad, darparwn drosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol i sicrhau eu bod yn cael yr adborth priodol.

Rhoddir gwybod am unrhyw bryderon brys a all godi o arolygiadau deintyddol i'r practis deintyddol ac i'r bwrdd iechyd drwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd manylion unrhyw ganfyddiadau o'r fath, ynghyd ag unrhyw argymhellion a wnaed, yn cael eu nodi yn Atodiad A i'r adroddiad arolygu.

Ciplun a geir o'r gwaith o gymhwyso safonau yn y practis ar ddiwrnod arolygiad deintyddol.

⁴ <https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made>

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun gwella

Practis:Goodwin Partnership DBS Ltd.

Dyddiad arolygu: 9 Mawrth 2016

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/Safon	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
-	Nid oedd angen cynllun gwella.				
Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol					
8	Dylid rhoi asesiadau risg ar waith, ochr yn ochr â phob Taflen Ddata, ar gyfer yr holl gemegion a gedwir ar y safle.	Safonau lechyd a Gofal Safon 2.1	Rydym wrthi'n gweithio ar asesiadau risg unigol ar gyfer yr holl gemegion a gedwir ar y safle.	H J Anthony	3 mis
10	Dylai'r nodiadau clinigol gynnwys cyngor ar roi'r gorau i smygu a chyngor ar alcohol, cydsyniad ar sail gwybodaeth a sgrinio ar gyfer canser.	Safonau lechyd a Gofal Safon 3.5, 4.2	Gwnaethom drafod yr angen mewn cyfarfod practis i sicrhau bod arferion smygu ac yfed alcohol yn cael eu cofnodi a chyngor perthnasol yn cael ei roi mewn	H J Anthony	Ar unwaith

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/Safon	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>perthynas â'u risg o gael canser y geg. Bydd cleifion yn cael statws risg o ganser y geg (uchel/cymedrol/isel) a fydd yn dylanwadu ar eu cyfnod adalw.</p> <p>Bydd cofnod manylach, penodol i ardal o'n profion sgrinio canser y geg cyfredol bellach yn cael ei gofnodi (e.e. buccal mucosa/tafod/llawr y geg ac ati)</p> <p>Bydd cydsyniad ar sail gwybodaeth ar gyfer pob triniaeth (neu os na chafwyd cydsyniad) yn cael ei gofnodi yn y nodiadau.</p> <p>Mae canllawiau drwy e-bost wedi'u hanfon ers y cyngor hwn.</p>		
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					
-	Nid oedd angen cynllun gwella.				

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (priflythrennau): H J ANTHONY

Teitl: PENNAETH Y PRACTIS

Dyddiad: 31/05/16